# Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## (HSS(2)-03-06)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau 16 Chwefror 2006
### Amser y cyfarfod: 9.30 am - 12. 05 pm
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgorau 3, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

#### Aelodau Cynulliad yn Bresennol

| Aelod Cynulliad | Etholaeth |
|---|---|
| Rhodri Glyn Thomas (Cadeirydd) | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Brian Gibbons (Gweinidog) | Aberafan |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Lynne Neagle | Torfaen |

#### Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Mutale Nyoni | Cadeirydd – Cyngor Gofal Cymru |
| Elizabeth Williams | Aelod Cyngor – Cyngor Gofal Cymru |
| John Williams | Aelod Cyngor – Cyngor Gofal Cymru |
| Rhian Huws Williams | Prif Weithredwr – Cyngor Gofal Cymru |

#### Swyddogion yn Bresennol

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Ann Lloyd | Pennaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| Dr David Salter | Prif Swyddog Iechyd Dros Dro |
| Graham Williams | Prif Arolygwr, Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| Dr Barbara Bale | Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol |

### Gwasanaeth Pwyllgor ac Ymchwil yr Aelodau

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| Julie Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Peter Jones | Cwnsler i'r Pwyllgor |
| Carolyn Eason | Gwasanaeth Pwyllgor ac Ymchwil yr Aelodau |

### Eitem 1: Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Dagan Buddiant

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriad gan Helen Mary Jones. Ni chafwyd dirprwy.

1.2 Ni ddatganwyd buddiant.

1.3 Bydd cofnod gair am air o'r cyfarfod ar gael.

1.4 Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad ynghylch cyflwyno contract newydd ocsigen yn y cartref.

### Gweithredu

Y Gweinidog i ddarparu gwybodaeth ystadegol am y rhai a adawyd heb gyflenwad yn ystod y trosglwyddo.

### Eitem 2: Blaenraglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd

Papur: HSS(2)-02-06(p.1);

2.1 Cytunwyd y byddai Rhodri Glyn Thomas a Jonathan Morgan yn trafod eitemau y gallai'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol graffu arnynt gydag Aelodau'r Senedd Ewropeaidd tra'u bod ym Mrwsel gyda'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol.

## Eitem 3: Papur Gwyrdd y Comisiwn Ewropeaidd ar Faethiad a Iechyd

Papur: HSS(2)-02-06(p.2);

3.1 Trafododd y Pwyllgor y cynigion

### Gweithredu

Byddai'r Pwyllgor yn ymateb i'r papur ymgynghori, gan amlygu enghreifftiau o fentrau a ymgymerwyd yng Nghymru a nodi pryderon y Pwyllgor ynghylch cysondeb wrth labelu bwydydd a hysbysebu sy'n targedu plant.

## Eitem 4: Cyngor Gofal Cymru

Papur: HSS(2)-02-06(p.3);

4.1 Cyflwynodd Mutale Nyoni adroddiad blynyddol Cyngor Gofal Cymru a rhoi trosolwg ar y prif bwyntiau. Holodd yr Aelodau Ms Nyoni a'i thîm ar gynnwys yr adroddiad.

### Gweithredu

Bydd y Cyngor Gofal yn darparu gwybodaeth am nifer y rheolwyr ym maes gwasanaethau gofal plant, gofal preswyl i oedolion a gofal yn y cartref oedd wedi cael gwahoddiad i gofrestru.

## Eitem 5: Is-ddeddfwriaeth – Gorchymyn Diddymu Proffesiynau Iechyd Cymru 2006

5.1 Craffwyd ar y ddeddfwriaeth ddrafft yn unol â phrotocol cytunedig y Pwyllgor ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth, lle mae'r aelodau'n rhoi gwybodaeth ymlaen llaw am unrhyw gwestiynau sydd ganddynt neu unrhyw ddiwygio y dymunant ei wneud.

5.2 Codasid wyth pwynt i'w hegluro. Ni chynigiasid unrhyw ddiwygio. Nododd y Pwyllgor atebion y Gweinidog i'r pwyntiau i'w hegluro ac roedd yn fodlon ar y cyfarwyddiadau fel y'u drafftiwyd.

### Gweithredu

Byddai adroddiad ar gasgliadau'r Pwyllgor yn cael ei osod gerbron y Cynulliad.

## Eitem 6: Rhestr o Is-ddeddfwriaeth

6.1 Nododd y Pwyllgor yr eitemau a ganlyn ar gyfer eu trafod.

| Rhif cyf. | Teitl |
|---|---|
| HSS57(04) | Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) |
| HSS19(05) | Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol( Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) 2006 |

**Gweithredu:**

Y Clerc i hysbysu Cadeirydd y Pwyllgor Busnes am yr eitemau a nodwyd.

**Papurau i’w Nodi**

Cofnodion cyfarfod 1 Chwefror 2006
HSS(2)-02-06-min

Y Gwasanaeth Pwyllgor
Chwefror 2006